

Dr Catrin Jones – Swyddog Polisi

Mae gennyf dros 30 mlynedd o weithio mewn sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru – gan gynnwys gwaith academaidd a gweinyddol ar y lefel uchaf o lywodraethu, rheoli a sicrhau ansawdd. Mae fy mhrofiad gwaith wedi bod yn amrywiol iawn ac rwy'n unigolyn egniol, llawn cymhelliant, trefnus, cyfrifol a phenderfynol, sy'n hyblyg ac yn hoffi gweithio gyda phobl yn ogystal â bod yn hapus i weithio'n annibynnol. Rwy'n credu'n gryf mewn gwelliant parhaus a hefyd yn yr egwyddor o gynnig y gwasanaeth gorau. Mae gen i brofiad helaeth o reoli. Siaradwr Cymraeg rhugl. Ar hyn o bryd mae gen i ddwy rôl ran-amser:

Swyddog Polisi, Un Llais Cymru (y corff cynrychioliadol ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru) – rhan amser (ers Awst 2020) - Gweithredu fel arweinydd Cymru gyfan ar bolisi i Un Llais Cymru: yn gyfrifol am gysylltu ag aelod gyngorau, trefnu a cynnal digwyddiadau ymgysylltu a datblygu ymatebion sector i ymgynghoriadau'r Llywodraeth a rhanddeiliaid.

Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol, Cyngor Tref Criccieth – rhan amser (ers Tachwedd 2016)- Darparu gwybodaeth strategol a chefnogaeth i'r Cyngor a gweithio gyda Chynghorwyr i wireddu dyheadau'r Cyngor Tref. Yn gyfrifol am sicrhau bod lefel uchel o wasanaeth i'r gymuned bob amser a datblygu a hyrwyddo'r Cyngor Tref. Swyddog Cyllid Cyfrifol, gan gynnwys rheoli a monitro'r gyllideb. Rôl allweddol wrth greu a datblygu'r Cynllun Cymunedol mewn cysylltiad â'r gymuned ac arwain wrth drefnu prosiectau cymunedol i gyflawni a chefnogi'r cynllun. Mae'r Cyngor Tref ar rhestr y cant mwyaf trawsnewidiol yng Nghymru Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol - pobl leol sy'n sicrhau newid cadarnhaol yng Nghymru - ochr yn ochr â phobl fusnes, beirdd, awdurdodau ac ymgyrchwyr cymunedol o Gymru.

Profiad Gwaith Blaenorol

- Cynghorydd Arbennig ar Lywodraethu a Chydweithio Strategol Cynghrair Strategol rhwng Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor 01 12 2012 i 2016 (swydd rhan amser) - cyflogedig gan Brifysgol Aberystwyth
- Cofrestrydd ac Ysgrifennydd Prifysgol Aberystwyth 01 10 2004 i 30 11 2012
- Cofrestrydd Academaidd Prifysgol Bangor 01 08 1999 i 30 09 2004
- Pennaeth Cynllunio Prifysgol Bangor 01 08 1996 i 31 07 1999
- Gweinyddwr Prifysgol Llanbedr Pont Steffan 01 04 1985 i 31 07 1996
- Tiwtor Daearyddiaeth Prifysgol Aberystwyth 01 10 1983 i 31 03 1985

Addysg

- Ysgoloriaeth Thomas ac Elizabeth William i astudio PhD Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth – dyfarnwyd PhD Gorffennaf 1991
- Ysgoloriaeth Evan Morgan i fynychu Prifysgol Aberystwyth 30 Medi 1978 i 1 Gorffennaf 1981: BA Anrhydedd 2: 1 gradd Daearyddiaeth
- Medi 1982 i Mehefin 1983 cwrs teipio Coleg Ceredigion
- 1 Medi 1971 hyd 30 Mehefin 1978 Ysgol Ramadeg y Gwendraeth. Prif Ferch yr ysgol 1977-1978